

## **Ysgoloriaethau a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru**

### **Adroddiad Cadeirydd y Panel Ysgoloriaethau 2020**

Roedd yn fraint i gadeirio Panel Ysgoloriaethau a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru eto eleni ac yn wir fe fu'n flwyddyn eithriadol o lwyddiannus: Cafwyd y nifer uchaf erioed o geisiadau ers i Llenyddiaeth Cymru ddechrau gweinyddu'r Cynllun Datblygu Awduron yn 2004 ac roedd safon uchel cyfran sylweddol iawn o'r ceisiadau hyn yn hynod galonogol. Wrth i ni wynebu heriau cymdeithasol a diwylliannol newydd a phryderus, mae rôl llenorion mewn cyfnod o wleidyddiaeth adweithiol i ddychmygu ac uchelseinio amrywiaeth o leisiau a phrofiadau yn gwbl angenrheidiol, ac hoffai'r Panel ddiolch i'r Loteri Genedlaethol sydd, trwy Gyngor Celfyddydau Cymru, yn ariannu'r gefnogaeth hollbwysig hon i lenorion Cymru. Roedd yn braf croesawu tri aelod newydd i'r panel eleni, sef yr Athro Matthew Jarvis, Dr Tomos Owen ac Elinor Wyn Reynolds, a ddaeth ag arbenigedd, egni a gweledigaeth newydd i'r gwaith o ystyried y ceisiadau.

Tasg y Panel oedd dyfarnu hyd at ugain o Ysgoloriaethau Awduron gwerth £3000, gyda chwech o'r ugain Ysgoloriaeth wedi eu clustnodi ar gyfer awduron newydd a fyddai hefyd yn derbyn lle ar y Cynllun Mentora, ac un o'r rheiny ar gyfer awdur o dan 25 mlwydd oed.

Yn ogystal â'r ugain Ysgoloriaeth Awdur, bu gennym fel Panel gyfle i ddyfarnu Ysgoloriaethau Cefnogi er mwyn cynorthwyo awduron sydd ag anableddau neu broblemau ieched. Er i ni fedru gwobrwyo cais haeddiannol a chyffrous, mae nifer gymharol isel y ceisiadau ar gyfer Ysgoloriaethau Cefnogi yn destun siom flynyddol. Mae cyllid ar gael i brynu cyfarpar arbenigol a chostau teithio penodol, cyfleoedd hyfforddi a chymorth ysgrifenyddol i awduron sydd ag anableddau neu broblemau symudedd. Rwy'n erfyn ar gyrff a chymdeithasau sy'n cynrychioli ac yn cefnogi unigolion sydd angen cymorth ar-benigol i ledu'r gair am y cyfle gwych hwn am gefnogaeth ymarferol gwerthfawr i awduron y mae mor bwysig i alluogi datblygiad eu doniau a'u gwaith.

Am y tro cyntaf, clustnodwyd un o'r pedwar lle ar y Cynllun Mentora ar gyfer awdur sy'n cyfieithu gwaith llenyddol o'r Gymraeg i'r Saesneg neu o'r Saesneg i'r Gymraeg, drwy bartneriaeth gyda'r National Centre for Writing yn Norwich a Chyfnwidfa Llen Cymru. Mae'r cynllun peilot hwn yn un i'w groesawu'n fawr o ystyried y rôl bwysig sydd gan gyfieithwyr i helpu agor a meithrin y ddeialog a dealltwriaeth draws-ddiwylliannol a chymdeithasol sy'n bwysicach nag erioed yn yr oes sydd ohoni. Edrychaf ymlaen at weld ffrwyth y bartneriaeth yn datblygu, ac yn achos y cais a wobrwyrwyd eleni, i gefnogi cyfieithydd o Gymru, a thrwy hynny galluogi nofel gan awdur Cymraeg i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Derbyniwyd 186 o geisiadau am gefnogaeth ar gyfer Ysgoloriaethau a'r Cynllun Mentora, gyda chynnydd unwaith eto yn nifer y ceisiadau ar gyfer Ysgoloriaethau gan awduron newydd (95) a gan awduron dan 25 mlwydd oed. Bu cynnydd hefyd yn nifer y ceisiadau gan awduron cyhoeddedig (60) ac yn nifer y rhai a oedd yn gofyn am gefnogaeth benodol y Cynllun Mentora yn unig (25) sy'n cynnig y cyfle amhrisiadwy o gael lle ar gwrs preswyl yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd a sesiynau un-i-un gyda mentor llenyddol profiadol. Dengys yr ystadegau hyn, ac o gofio hefyd bod mwyfarif llethol yr ymgeiswyr heb dderbyn unrhyw fath o gefnogaeth gan y Cynlluniau Datblygu Awduron yn flaenorol, werth hanfodol y Cynlluniau i lenorion Cymru a llwyddiant Llenyddiaeth Cymru i ymgysylltu ag ystod eang o'n hawduron ar amrywiol gyfnodau yn eu gyrfaedd er mwyn hyrwyddo'r cyfleon sydd ar gael i'w datblygu. Roedd yn dda gweld mwy o awduron o gefndiroedd ethnig ac a oedd yn nodi eu bod o gefndir dosbarth gweithiol ymhlith yr ymgeiswyr unwaith eto eleni a bu cynnydd hefyd yn nifer yr awduron Cymraeg a oedd yn ymgeisio am gefnogaeth gan y Cynllun Mentora.

Derbyniwyd ceisiadau am gefnogaeth Ysgoloriaethau Awduron ac Ysgoloriaeth Cefnogi a oedd yn cyfateb i gyfanswm o £470,040. Y cyllid a oedd ar gael i'w ddyfarnu ar gyfer Ysgoloriaethau ac Ysgoloriaethau Cefnogi 2020 oedd £61,192. Dyna ddangos yn gwbl eglur natur y galw taer am gefnogaeth gan awduron Cymru a hefyd natur yr her a wynebai'r Panel Ysgoloriaethau wrth ddyfarnu eleni. Ystyriwyd rhestr hir o 53 o ymgeiswyr, gan drafod yn fanwl safon, gweledigaeth, addewid a gwreiddioldeb pob sampl o waith a gyflwynwyd. Roedd y broses felly'n anorfod yn un go lem, ac o feddwl am siom anochel yr ymgeiswyr aflwyddiannus, hoffwn bwysleisio y gallai'r Panel fod wedi gwobrwyo o leiaf ddwbl y nifer a dderbyniodd gefnogaeth yn sgil safon y gwaith a gyflwynwyd. Dylid cofio hefyd bod dyfalbarhad a phenderfyniad i barhau i ddatblygu ac arbrosi fel awdur, gan newid cyfeiriad yn llwyr ambell dro, yn medru dwyn ffrwyth. Roedd nifer o'r rhai a wobrwyyd eleni wedi ymgeisio'n aflwyddiannus yn y gorffennol, a rhai a dderbyniodd Ysgoloriaeth Awdur y tro hwn yn arddangos dylanwad ac effaith gadarnhaol y Cynllun Mentora ar eu syniadau a'u crefft.

Roedd yn drawiadol, er nad yn syndod, gweld cymaint o flas dystopaidd ar waith yr awduron a ymgeisiodd am Ysgoloriaeth a'r Cynllun Mentora eleni. Defnyddiwyd amrywiaeth o genres a thechnegau naratif i archwilio amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, gormes a rhagfarn yn erbyn dosbarth, hil a rhywedd ac effaith yr argyfwng newid hinsawdd - gyda gwyddonias, llenyddiaeth gothig, a ffuglen droseddol, hanesyddol a ffantasi yn hynod amlwg yn y gwaith a gyflwynwyd. O blith y 25 o awduron a wobrwyyd eleni, roedd 20 yn fenywod, ac mae'r profiad benywaidd, a hynny ddoe, heddiw ac yfory, ar bob cyfnod o fywyd, yng Nghymru a thu hwnt, yn thema fawr yng ngwaith y mwyafrif ohonynt. Cafodd y Panel bleser mawr o ddarllen gwaith rhai o'r awduron iau yn arbennig, gyda lleisiau ifanc yng ngeiriau un o'r panel yn "tasgu allan o'r dudalen." Braf hefyd oedd gweld enghreifftiau o'r safon uchaf o

genres sy'n bwysig i'w datblygu yn y Gymraeg - llenyddiaeth plant ac oedolion ifanc, nofelau graffeg a ffuglen wyddonol - yn cael eu gwobrwyo. Cafwyd enghreifftiau o waith barddonol arbrofol, arloesol a gweithiau ffeithiol greadigol trawiadol, dewr a beiddgar a llenyddiaeth plant ac oedolion ifanc rymus ac heriol. Bu'n bleser darllen egin gyfrolau mor arbennig ac fe gafodd y Panel eu cyffroi a'u hysbrydoli gan waith awduron hen ac ifanc, newydd a phrofiadol fel ei gilydd.

Ar ran y Panel, hoffwn ddiolch i bawb a ymgeisiodd ar gyfer Ysgoloriaeth a'r Cynllun Mentora eleni ac estyn ein llongyfarchiadau gwresog i'r rhai a ddaeth i'r brig mewn proses hynod o gystadleuol. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at ddilyn hynt yr awduron dawnus hyn, gan obeithio gweld y gefnogaeth yn arwain at gynhyrchu cyfrol gyntaf gan rai, a'r cyfle i ddilyn trywydd creadigol newydd gan eraill. Diolchaf i'm cydbanelwyr am eu cymorth a'u cyngor manwl a threiddgar gyda'r gwaith, a mawr yw ein diolch i Reolwr Datblygu Awduron Llenyddiaeth Cymru, Petra Bennett, am ei chefnogaeth ac arweiniad effeithiol a thrylwyr ar hyd y broses o ddyfarnu'r Ysgoloriaethau a'r Cynllun Mentora.

**Sioned Williams, Ionawr 2020**